# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran F

## Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'w hateb ar 13 Hydref 1999

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a'r Amgylchedd

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** A wnaiff ddatgan a yw'n bolisi ganddo neu a yw'n bwriadu cyflwyno polisi fel bod yn rhaid cael clustogfa o 500 metr o amgylch Safleoedd Cloddio Glo Brig fel yn yr Alban. (OAQ1399VB)

**2. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Sut y mae'n bwriadu sicrhau y rhoddir clust i farn y Cynulliad, ac y gweithredir yn unol â'r farn honno, gan nad oes ganddo gynrychiolaeth ddigonol ar yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol. (OAQ1410VB)

**3. David Davies (Mynwy);** Pa asesiad a wnaed ganddo o lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer cynlluniau i atal llifogydd ar draws Cymru. (OAQ1395VB)

**4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** Pa gamau a fydd yn eu cymryd i gyflwyno mesurau diogelwch a mesurau i arafu traffig ar yr A40 yng Nghrucywel er mwyn diogelu cerddwyr a defnyddwyr y ffordd. (OAQ1400VB)

**5. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau bod ymgynghori digonol cyn i'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy gael ei weithredu. (OAQ1409VB)

**6. Brian Gibbons (Aberafan);** A all amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf o safbwynt adolygu'r fformwla ar gyfer Dyraniadau Llywodraeth Leol. (OAQ1388VB)

**7. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yngln ag aelodaeth yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol. (OAQ1406VB)

**8. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A oes ganddo ddyddiad ar gyfer dechrau ar y

gwaith o adeiladu ffordd liniaru ar gyfer yr M4, i'r de o Gasnewydd. (OAQ1385VB)

**9. Brian Hancock (Islwyn);** Pa gamau a fyddwch yn eu cymryd er mwyn ei gwneud yn haws i sefydlu cynghorau cymuned mewn ardaloedd lle nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd. (OAQ1419VB)

**10. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Sut y bydd y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn effeithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru a phwy fydd yn ariannu'r newidiadau angenrheidiol. (OAQ1404VB)

**11. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff ddatganiad ar rôl Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd o ran hybu datblygiad adnoddau ynni cynaliadwy. (OAQ1413VB) [w]

**12. Cynog Dafis (Mid and West Wales);** A wnaiff ddatganiad ar rôl Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd o ran hybu datblygiad adnoddau ynni cynaliadwy. (OAQ1389VB) [w]

**13. Geraint Davies (Rhondda);** A fyddai'n ystyried rhoi cymorth ariannol arbennig i Awdurdodau Lleol sydd wedi etifeddu diffygion ariannol. (OAQ1403VB) [R]

**14. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Beth fydd yn ei wneud i sicrhau bod pob contract amgylcheddol sylweddol yn cael ei roi i gwmnïau ac awdurdodau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. (OAQ1411VB)

**15. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** Pa gyfraniad y mae'n ei ragweld y bydd yn dod o bob un o benawdau cyllideb y Pwyllgor Llywodraeth Leol, yr Amgylchedd, Cynllunio, Tai a Thrafnidiaeth, er mwyn darparu arian cyfatebol ar gyfer y rhaglen Amcan Un yn ystod y flwyddyn ariannol 2000-2001. (OAQ1407VB)

**16. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A fydd yn ystyried clustnodi'n benodol o fewn y Grant Cynnal ar gyfer Awdurdodau Lleol ddyraniad y gyllideb ar gyfer cymdeithasau tai. (OAQ1386VB)

**17. Geraint Davies (Rhondda);** Pa gynlluniau sydd ganddo i roi cymorth ariannol ar gyfer ffordd liniaru Rhondda Fach Isaf a ffordd Osgoi Gelli a Threorci. (OAQ1398VB)

**18. Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i ddelio â'r perygl a gwyd yn sgil pont reilffordd Cwmbach ar gefnffordd yr A470. (OAQ1373VB)

**19. Michael German (Dwyrain De Cymru);** A yw wedi trafod o gwbl â'r Ysgrifennydd Cartref y posibilrwydd o gyflwyno system o gynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer etholiadau lleol yng

Nghymru. (OAQ1401VB)

**20. Gareth Jones (Conwy);** A all ef gadarnhau bod Twnel Penmaenmawr yn berffaith ddiogel ar gyfer teithwyr, er gwaethaf y craciau niferus yn y waliau. (OAQ1397VB)

**21. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pe bai ffermwyr yn claddu nifer mawr o famogiaid ar eu tir, a fyddai hynny'n cael ei ystyried yn berygl i'r amgylchedd. (OAQ1420VB) [R]

**22. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa ganllawiau y mae'n eu cynnig i awdurdodau lleol er mwyn eu cynorthwyo i ailstrwythuro eu prosesau gwneud penderfyniadau, cyn i Ddeddfwriaeth Sylfaenol gael ei phasio. (OAQ1391VB)

**23. Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa brojectau seilwaith sylweddol y mae'n gobeithio y gellir eu hariannu ag arian Amcan Un. (OAQ1372VB)

**24. Gareth Jones (Conwy);** Pa sicrwydd all ei roi i Drigolion Penmaenmawr fod penderfyniad wedi'i wneud i wella system garthffosiaeth annigonol y dref. (OAQ1396VB)

**25. Jane Davidson (Pontypridd);** A wnaiff ddynodi'r broses ar gyfer archwilio'r cynigion a gaiff eu cyflwyno o dan Gynigion Grant Trafnidiaeth 2000/2001. (OAQ1387VB)

**26. Alison Halford (Delyn);** Faint o ddylanwad fydd gan y Cynulliad o safbwynt aelodaeth yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol arfaethedig. (OAQ1378VB)

**27. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y trafodaethau rhwng ei swyddogion a Dinas a Sir Abertawe ar eu cais Menter Cyllid Preifat (PFI) ar gyfer Ysgol Gynradd Sgeti ac Ysgol Gynradd St Thomas. (OAQ1390VB) [R]

**28. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Yn dilyn yr olew a ollyngwyd yn ddiweddar i Lyn Parc y Rhath, Caerdydd, a fydd yn adolygu gweithdrefnau a threfniadau diogelu er mwyn delio â digwyddiadau llygredd sylweddol mewn ardaloedd trefol. (OAQ1450VB)

**29. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Pa wybodaeth sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd mewn perthynas â pholisi amgylcheddol manwl ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad. (OAQ1412VB)

**30. Brian Hancock (Islwyn);** Pa fesurau ymarferol sydd ganddo ar y gweill i leihau dibyniaeth ar y car i deithio i Adeilad y Cynulliad ac ardal gyfagos Bae Caerdydd. (OAQ1408VB)